

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 371- Beirniadaeth Cyfansoddi Sgript Wreiddiol BL.6 ac iau

#### Beirniad – Mair Tomos Ifans

Cefais bleser mawr yn darllen 3 sgript fywiog a dychmygus... Rhoddaf sylwadau arnynt yn y drefn y bu imi eu darllen.

Sgandal y Maes Carafannau : Ymdrech dda iawn i greu awyrgylch ar ddechrau'r sgript. Dwy ferch yn gwersylla mewn pabell ac wedi bod yn gwylio ffilm ar i-pad.

*Marial " ... ffilm dda yn doedd ?"*

*Ani " Oedd. Ond oedd hi ychydig yn arswydus.*

*Marial: Ti'n gymaint o hen fabi.*

*Ani: Nes di glywed y swm na ,ma na rwbeth yna.*

Maent yn clywed swm y tu allan ac yn tybio bod dynion cas yn mynd i'w taflu i'r afon. Mae nhw'n ffonio mam ond tydi honno ddim yn ateb, 'di nhw methu ffonio dad achos mae o di colli ei ffôn yn y pit slyri. Mae nhw'n ffonio nain ond tydi hi ddim yn gallu dod i'w nol nhw achos mae ei char hi yn y garej yn cael MOT ! Bore wedyn, mae nain yn dal i boeni amdyn nhw ac yn sôn wrth ei ffrind sydd yn sôn wrth ffrind ac yn y diwedd mae'r stori yn drwch rhyd y pentref fod y merched wedi cael eu herwgipio gan ddynion cas. Ond wrth gwrs erbyn i nain gael gafael ar ei hwyres does dim lle i bryderu - dim ond perchnogion y gwersyll oedd allan ynghanol nos yn gosod baneri hyd y lle yn barod at gynnal Gwyl y Weirglodd . Mae'r ymgomio drwy'r sgript yn rhwydd, naturiol a thafodiaethol ac mi hoffais yn fawr y darnau smala e.e

*Bet: Ddoth Gwenfron acw cynt ac dwedodd hi bod ei hwyres hi bron iawn a chael ei herwgipio gan hen ddynion cas.*

*Cerian: O am ofnadwy yn lle digwyddodd hyn.*

*Bet: O yn Maes Carafannau Caer Weirglodd gyda'i ffrind.*

*Cerian: O mewn carafan neu be.*

*Bet: Mewn pabell dwi'n meddwl dwi'm yn siwr I fod yn onest efo ti.*

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

*Cerian: O duw fydd yn rhai dl fi fynd rwan ma gen i gacen yn popty.*

*Bet: Www neis iawn hwyl welai di o gwmpas.*

Mae'n amlwg bod achub cacen o'r popty yn llawer pwysicach nag achub merched wedi eu herwgipio ! Da iawn.

Scandal : Hoffais agoriad y sgript yma sy'n gosod y lleoliad a'r cymeriadau yn dwt a di- ffws ac yn awgrymu trywydd y sgript yn gynnil.

*Llinos: O na! Lle mae bwyd y gath ne!*

*Ann: Mae o yn fama Llinos, ond mae ei liw o wedi newid.*

*Llinos: Nefi Blw! Pam ma nhw di neud hynna dwed!*

*Ann: Dim math o syniad sti, ond dwi'm yn dallt pobl adeg yma sti.*

*Llinos: Ela! Wyt ti'n gwybod pam mae lliw paced bwyd y gath di newid! Ela?*

*( ELA A'R Y FFON GYDA DYN Y SIOP ARALL )*

Camddealltwriaeth yw hanfod Scandal. A'r wers i ni gyd ydi i beidio a gwrando ar sgysiau ffôn pobl eraill ! Mae Llinos yn benderfynnol na chaiff Ela gau ei siop. Mae Llinos yn poeni yn arw lle mae hi'n mynd i gael bwyd i'w chath a hefyd :

*Llinos: Mam a Mia, dwi newydd feddwl, lle nai gyfarfod Ann o hyn ymlaen. Da ni wedi dod I'r siop na I gyfarfod ers oleia 30 mlynedd bellach, mi fydd fel torri traddodiad! O mae hyn yn ofnadwy!!!!*

Mae 'na gysylltu efo papur newydd. Mae 'na drefnu protest. Ac mae na ddatrus y camddealltwriaeth. Sgript daclus a doniol wedi ei saernio yn grefftus. Da iawn.

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Y Gwenyn yn Marw - Agoriad pwrpasol. Sgwrsio rhwydd a naturiol. Mae'n amlwg o'r dechrau be' sydd wedi digwydd. Ond pam ? Pwy neu beth sy'n lladd gwenyn Sian ?

*Sian: O John, John tyrd yma. ( MEWN BRAW )*

*John: Be sydd mater Sian? ( YN RHEDEG AT SIAN)*

*Sian: O John bach mae fy ngwenyn yn marw!!*

*John: O Sian paid a bod yn ddramatig.*

*Sian: Ond John mae o yn ofnadwy.*

*John: Be ydi y dotiau du ar lawr.*

*Sian: Fy ngwenyn wedi marw.*

*John: O ....*

Mae John yn sôn wrth Bobi - ac mae Bobi yn dweud wrth ei fam - er tydi hynny ddim wedi cael ei sgriptio - dim on cyfarwydddydd llwyfan :

*"(Bobi yn dweud y cwbl wth ei fam) "*

Y cwestiwn fyddwn i yn ei ofyn yma ydi sut mae cyfleu hynny ? Ai gofyn i'r actorion fyr-fyfyrio mae'r sgript, neu feimio - neu ganu ? Rhaid ystyried hynny hefyd wrth gwrs wrth amseru y sgript.

Mae mam Bobi - Magaret - yn mynd i weld Sian

*Mam Bobi: O Sian pam bod dy wenyn yn marw.*

*Sian: Dydw i ddim yn gwybod Margret.*

*Magret: Ond Sian fydd rhaid I ti ffeindio allan.*

*Sian: Dwi yn gwybod.*

*Magret: Wyt ti wedi bod yn clywed rhywbeth yn y nos.*

*Sian: Na.*

*Magret: Wyt ti wedi bod yn gweld pethau*

*Sian: Na*

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

On ddiolch byth mae John a Bobi yn datrus y diogelwch - Y Cacwn sydd wrthi - y nhw sydd yn lladd y gwenyn ! Sgandal. Cawn wybod pwy sy'n lladd y gwenyn ond nid sut na pham. a beth mae Sian am wneud am y peth ? Efalli y byddai hynny yn cael ei esbonio yn yr olygfa nesaf ? Mae yma ymdrech deg i greu strwythr i'r sgript a cheisio cyrraedd uchafbwynt, ond efallai bod yr uchafbwynt hwnnw braidd yn fflat.

Scandal sydd yn cael y wobwr gyntaf gen i tro yma -, ond mae'r ddwy sgript arall hefyd yn haeddu clod a gobeithio yn wir y byddant yn cael eu llwyfannu/ ffilmio/ recordio mewn rhyw fodd er mwyn i'r sgriptwyr gael clywed eu geiriau yn cael eu llefaru - mae hynny bob amser yn wefr.

*D.S. un nodyn bach pwysig i bawb i gymrryd sylw o'r amser a osodwyd yn y testunau pan maent yn cystadlu - ond efallai hefyd bod 2 funud yn amser hynod o fyr i greu sgript afaelgar - byddai hynny yn dasg go anodd hyd yn oed i sgriptwyr profiadol iawn.*

1af - Osian Gibson

2il - Nel Jones

3ydd - Cari Jones